



## Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

## Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit



Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru i greu dulliau buddsoddi rhanbarthol newydd i gymryd lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit. Mae'r broses hon yn cynnwys amrywiaeth o dulliau ymgysylltu, gan gynnwys sefydlu Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, sy'n cael ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AC, er mwyn trafod materion strategol a syniadau newydd ynghylch cyfeiriad polisiau a dulliau gweithredu, a rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys busnes, llywodraeth leol, sefydliadau addysg, y trydydd sector ac amrywiaeth o gyrff cyhoeddus. Mae'r Grŵp Llywio wedi cyfarfod dwywaith (18 Chwefror a 2 Mai) ers cael ei sefydlu'n gynharach eleni. Mae'r aelodau, y papurau terfynol a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi [yma](#).

Mae'r Grŵp Llywio hefyd wedi cytuno i sefydlu pedwar is-grŵp arbenigol (Fframwaith Cenedlaethol; Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso; Gweithredu; a Gweithio Rhyngwladol/Trawsffiniol) i lywio meddyliau a chreu syniadau ynghylch materion penodol. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys yr arbenigwyr perthnasol mewnol ac allanol o wahanol sectorau, a byddant yn cael eu sefydlu am 18 mis i ddechrau wrth i ni geisio gweithredu fframwaith buddsoddi rhanbarthol newydd o ddechrau 2021. Bydd manylion am yr is-grwpiau hyn, gan gynnwys sut i wneud cais i fod yn aelod, yn cael eu cyhoeddi [yma](#).

Cynhaliwyd dadl gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn sesiwn lawn ar 11 Mehefin ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig. Roedd cefnogaeth amlwg am farn Llywodraeth Cymru na ddylai Cymru fod ar ei cholled o ganlyniad i Brexit - fel yr addawyd yn ystod refferendwm 2016 - a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gadw ymreolaeth yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni trefniadau a fydd ar waith yn dilyn hyn. Darllenwch ddatganiad agoriadol a datganiad clo y Gweinidog Cyllid (Rebecca Evans AC) ynghyd â'r cofnod llawn o'r trafodion [yma](#).

## Dweud eich dweud...

Mae WEFO wedi penodi Ymchwil OB3 i gynnal gwerthusiad o waith y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (RETs).

Fel rhan o'r gwerthusiad maent yn dymuno casglu adborth wrth rhanddeiliaid sydd wedi cydweithio gyda'r RETs. Gofynna Ymchwil OB3 ichi gwblhau'r [arolwg](#) byr, cyfrinachol yma os gwelwch yn dda.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth gyda'r adolygiad pwysig hwn.

## Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigyrau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cymru'n elwa o gronfeydd yr UE [yma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figyrau ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe
Mentrau a Gynorthwywyd <sup>1</sup>	1,843
Mentrau a Grëwyd <sup>2</sup>	414
Swyddi a Grëwyd <sup>3</sup>	3,529
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	47,028
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	3,605
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	17,582
Cyfranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	2,005

Ffynhonnell: SCEC, 31/03/2019

<sup>1</sup> Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

<sup>2</sup> Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

<sup>3</sup> Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF

## Bargen Ddinesig Bae Abertawe



### **Disgwylir i ddau brosiect mawr Bargen Ddinesig Bae Abertawe gael eu cymeradwyo yn y man.**

Disgwylir mai'r Egin yng Nghaerfyrddin a phrosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau fydd y prosiectau cyntaf i gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ar ôl cael eu cymeradwyo, bydd cyllid y Fargen Ddinesig sy'n werth miliynau'n helpu i ariannu'r prosiectau hyn yn rhannol. Maent ymysg nifer o brosiectau yn ne-orllewin Cymru y disgwylir iddynt gael eu hariannu'n rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd hefyd yn cynnwys Menter Sgiliau a Thalentau Ranbarthol o dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin i helpu pobl ledled y Ddinas-ranbarth i gael mynediad at y miloedd o swyddi newydd a gaiff eu creu gan y Fargen Ddinesig.

Mae'r cam cyntaf o'r hwb creadigol a digidol, Yr Egin, ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, eisoes yn weithredol.

Yn ogystal â'r prif denant sef S4C, mae cam cyntaf Yr Egin sy'n 3,700 metr sgwâr bellach yn gartref i amrywiaeth o gwmnïau sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol gan gynnwys cyhoeddi amlgyfrwng, technoleg ddigidol, addysg ddigidol, cynhyrchu fideos, ffotograffiaeth, ôl-gynhyrchu, dylunio graffeg, cyfieithu, is-deitlo, a rheolaeth ariannol ar gyfer y sector creadigol.

Mae prosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau yn cynnwys arena dan do ddigidol ar y safle ger yr LC, pentref digidol ar gyfer busnesau ar hen safle Oceana ar Ffordd y Brenin, a phentref blychau ac ardal arloesedd ar gyfer busnesau newydd ar Gampws y Glannau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn SA1.

Gan elwa ar gysylltedd digidol o'r radd flaenaf, bydd yr arena sydd â lle i 3,500 o bobl yn agor ar ddechrau 2021. Bydd plaza digidol hefyd yn cael ei adeiladu y tu allan i'r arena.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i weithio ar achos busnes terfynol wedi'i ddigwygio ar gyfer y Pentref Llesiant gwerth £200 miliwn yn Llynnoedd Delta, Llanelli. Disgwylir i'r prosiect, sy'n cyfuno cyfleusterau meddygol, ymchwil, busnes, hamdden a llesiant, hefyd gael ei ariannu'n rhannol gan y Fargen Ddinesig.

Mae cynnydd arall yn cynnwys cynllun i recriwtio cyfarwyddwr annibynnol rhaglen y Fargen Ddinesig, a disgwylir i hysbyseb swydd gael ei chyhoeddi yn y man. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sefydlu ac yn rhedeg swyddfa rheoli rhaglen y Fargen Ddinesig yn Llanelli, yn ogystal â chydlynu portffolio o brosiectau mawr ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Ymysg y swyddogaethau eraill y mae codi proffil y Ddinas-ranbarth fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi, yn ogystal â chwilio am ragor o gyfleoedd ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat yn y Fargen Ddinesig.

Un o argymhellion yr adolygiadau diweddar ynghylch y Fargen Ddinesig yw'r swydd newydd, sydd â'r nod o gyflawni'r fargen yn gynt.

# Sefydliad Ymchwil Peirianeg gwerth £35 miliwn ym Mhrifysgol Abertawe yn cael ei orffen

Mae cyfleuster ymchwil newydd sy'n arbenigo mewn peirianeg uwch wedi cael ei gwblhau.

Mae'r Sefydliad Arloesol ym maes Deunyddiau, Prosesu a Thechnolegau Rhifyddol (IMPACT) yn sefydliad ymchwil peirianeg gwerth £35 miliwn, gyda'r cyfleusterau diweddaraf, ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe. Mae'n rhan o'r Coleg Peirianeg ac yn darparu lle iddo ehangu'n strategol.

Mae cwblhau'r adeilad yn garreg filltir bwysig tuag at gyflawni gwaith ymchwil IMPACT yn llwyddiannus. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Rhagfyr 2017, gyda dyluniad a luniwyd i gefnogi'r diwydiant peirianeg byd-eang ymhellach â gwaith ymchwil hanfodol, cydweithredol. Mae'r dyluniad trawsffurfiannol yn cyfuno labordai a swyddfeydd i ddarparu amgylchedd cydleoli unigryw ar gyfer partneriaethau rhwng academia a diwydiant.

[Dysgwch fwy am IMPACT](#)



Y tu allan i'r adeilad IMPACT, sydd â wal fyw enfawr o ryw 5,500 o blanhigion

Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe. Bydd yr adeilad yn cael ei lansio'n swyddogol yn ystod misoedd y gaeaf.

## Dechrau gwaith ar gynllun mawr i drawsnewid Pentywyn



Mae gwaith wedi dechrau ar gynllun mawr gwerth £7 miliwn i drawsnewid Pentywyn yn gyrchfan ymwelwyr pwysig yng Nghymru.

Bydd Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, o dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys amgueddfa Traeth y Gwibwyr newydd o'r radd flaenaf i gofio am gysylltiad hanesyddol Pentywyn â chyflymder dros y tir, lle bydd parthau rhyngweithiol ac arddangosfeydd ar gyfer ceir rasio a phethau cofiadwy am gyflymder dros dir; eco-gyrchfan ar gyfer gwyliau sydd â hostel 42 gwely a gerddi twyni; yn ogystal â chyfleusterau i gynnal digwyddiadau mawr a chwaraeon ar y tywod.

Mae'r datblygiadau ym Mhentywyn yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru, sef Cyrchfan Denu Twristiaeth, a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd ac a arweinir gan Croeso Cymru, sy'n anelu at greu 11 o gyrchfannau y mae'n hollol hanfodol eu gweld yng Nghymru.

Llwyddodd Cyngor Sir Caerfyrddin i gadarnhau £3 miliwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac £1.5 miliwn o Gyllid Cyfatebol wedi'i Dargedu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun, a bydd y £2.5 miliwn sy'n weddill yn dod o raglen gyfalaf y Cyngor.

Ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau yn hâf 2020, y gobaith yw y bydd yn rhoi hwb ychwanegol i economi'r rhanbarth o £3.3 miliwn y flwyddyn.

Mae'r prosiect yn adeiladu ar ymdrechion y Cyngor dros y 9 mlynedd diwethaf i wella ardal Pentywyn, gan gynnwys pyrth newydd, promenâd newydd gwerth £800k, a buddsoddiad mewn eiddo masnachol, gan gynnwys Canolfan Parry-Thomas £1 miliwn.

Dywedodd y Cyngorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio: "Mae hwn yn gynllun cyffrous a fydd yn tynnu sylw pawb at Bentywyn fel gyrchfan gwyliau mawr, gan gryfhau'r economi ymhellach yn yr ardal a darparu swyddi mawr eu hangen.

"Bydd amgueddfa Traeth y Gwibwyr ei hun yn atyniad mawr ac rydym yn falch iawn o ddatblygu'r hostel gweithgareddau a fydd yn helpu i sefydlu Pentywyn fel gyrchfan 'diwrnod ac aros'"



## Llwyddiant Sian Andrews, y Datblygydd Gwefannau Anabl

Mae gan Sian Andrews, sy'n ddatblygwr gwefannau a swyddog gweinyddol rhan amser, yn atgofion dda o'r 22ain o Fawrth 2019, oherwydd dyna pryd gaeth gwefan newydd y bu hi'n rhan ganolog o'i datblygiad, ei lansio -[www.AccessPembrokeshire.co.uk](http://www.AccessPembrokeshire.co.uk). Mae Sian yn angerddol dros wella ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â hygyrchedd i'r anabl, a chanddi ddiagnosis o awtistiaeth ei hun. A gyda chymorth Gweithffyrdd+, cafodd y gefnogaeth berffaith i'w galluogi hi i wneud hynny.

yn 2016, cafodd Sian ei chyfeirio at dîm Gweithffyrdd+ Sir Benfro gan Shaw Trust. Penodwyd mentoriaid, Hannah a Nigel, yn arbennig ar ei chyfer hi er mwyn cynnal sesiynau un-i-un, a gwelwyd yn fuan fod gan Sian botensial mawr. Wedi cyfnod o weithio gyda hi i adeiladu ei hyder ac i ddatblygu ei sgiliau gweithio, trefnwyd fod Sian yn ymuno â grŵp gwirfoddol Gweithffyrdd+, grŵp a oedd wrthi'n datblygu gwefannau newydd i ateb anghenion Sir Benfro. Gyda chefnogaeth barhaus Hannah, Nigel, ac un o weinyddwyr Gweithffyrdd+, Daniel Martin, roedd Sian yn ffynnu o fewn y grŵp gwirfoddol, gan ddatblygu ei sgiliau digidol a chyfrannu llawer yn gymdeithasol hefyd.

Defnyddiwyd brwdfrydedd Sian dros amlygu gwybodaeth am hygyrchedd anabl er mwyn adeiladu gwefan newydd [www.AccessPembrokeshire.co.uk](http://www.AccessPembrokeshire.co.uk). Crëwyd y wefan er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau sydd ar gael i'r anabl mewn mannau sector breifat a sector gyhoeddus yn Sir Benfro, yn ogystal â'u hygyrchedd.

Gyda chefnogaeth Gweithffyrdd+, mae gwaith Sian i ddatblygu'r wefan wedi ehangu i gynnwys canfod a golygu yn yr adran Newyddion a Digwyddiadau, yn ogystal ag ychwanegu mapiau, botymau, a gwe-ddolenni. Roedd ei chyfraniad mor werthfawr fel ei bod hi bellach yn cael ei chyflogi dri diwrnod yr wythnos i weithio ar y wefan. Llwyddodd Nigel i sicrhau safle gwirfoddoli i Sian o fewn Cyngor Sir Penfro hefyd, lle mae hi'n gweithio fel gweinyddydd. Roedd Sian yn frwdfrydig iawn wrth dderbyn y cyfle, a datblygwyd ei sgiliau hi ymhellach o wneud. Wedi rhai wythnosau o wirfoddoli, cynigiodd y Cyngor swydd barhaol 16 awr yr wythnos i Sian, . Erbyn hyn, mae Sian yn fwy annibynnol nag y bu hi erioed o'r blaen.

Roedd derbyn cyflogaeth yn rhywbeth a oedd yn golygu llawer i Sian. Dywedodd, 'Rwy'n gwneud rhywbeth sy'n rhoi boddhad mawr i mi. Rwy'n mwynhau'r gwaith ac rwy'n mwynhau cymdeithasu yn y gwaith a chwrdd â phobl hefyd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn edrych ymlaen ato bob tro y byddaf yn mynd i'r gwaith. Mae pobl Gweithffyrdd+ yn glen iawn, ac maent wedi bod yn wych wrth roi cymorth i mi wneud yr hyn yr wyf yn angerddol amdano. Rwy'n falch iawn o'r gwaith yr wyf yn ei wneud, ac mae fy nheulu'n falch iawn hefyd. Byddwn yn argymhell Gweithffyrdd+ i unrhyw un sy'n awyddus i wneud y gorau o'u bywydau.'

Dywedodd Karen Davies, Rheolwr Prosiect Gweithffyrdd+ Sir Benfro, "Bu'n bleser gwyllo Sian yn datblygu, ac mae'n wych cael gweld y gwahaniaeth rhwng y Sian sydd yma heddiw â'r Sian a wnaethom gyfarfod y tro cyntaf. Ein bwriad ni yma yn Gweithffyrdd+ yw helpu pobl sy'n segur yn economaidd i wella eu bywydau trwy wirfoddoli, trwy hyfforddi, neu trwy dderbyn profiad gwaith a chyflogaeth. Dylai unrhyw un, waeth beth yw eu rhwystrau, ddod i siarad gyda ni. Os na allwn ni helpu, gallwn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill."

Mae Gweithffyrdd+ yn helpu pobl i wella eu bywydau trwy wirfoddoli, trwy dderbyn profiad gwaith, hyfforddiant, a chyflogaeth. Caiff Gweithffyrdd+ ei noddi'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Llywodraeth Cymru.

Er mwyn derbyn cymorth gan Gweithffyrdd+, ffoniwch 01432 776662 [www.workways.wales](http://www.workways.wales)

# Horizon 2020

## Digwyddiad Blynyddol Horizon 2020



Yn y digwyddiad byddwn yn ystyried sut gall cronfeydd ymchwil ac arloesi yng Nghymru, y DU a'r UE weithio gyda'i gilydd i hybu gallu Cymru i gystadlu'n rhyngwladol. Byddwn hefyd yn edrych ymlaen i'r cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid rhyngwladol drwy raglen newydd Horizon Europe. ([linc](#)).

---

## Cofrestrwch eich prosiect Horizon 2020

Mae cyllid ymchwil Horizon 2020 a ddyfernir i sefydliadau Cymru wedi'i amddiffyn gan warant gwariant oes Llywodraeth y DU. Os ydych yn derbyn cyllid Horizon 2020 ar hyn o bryd, nodwch fanylion eich prosiect ym mhorth prosiectau Ymchwilio ac Arloesi'r DU er mwyn sicrhau bod gan y porth eich gwybodaeth os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. (cliciwch [yma](#)).

---

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor:

### Cynllun Rheoli Cynaliadwy

#### Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor

Bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer amryfal weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli. Bydd hynny, yn ei dro, yn cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

### Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector Twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei defnyddio naill ai i greu cynnyrch newydd o safon uchel neu i ddiweddarau cynnyrch presennol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

### Grant Busnes i Ffermydd

#### Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor

Nod y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

Mae'r grant yn cyfrannu tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau sydd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i fentrau ffermydd.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)



## Food Business Investment Scheme

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

### Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,

Business Resource Centre,

Ty Parcyrhun,

Ammanford.

SA18 3EP

01554 742473 / [swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk](mailto:swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk)

